**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 3ydd Medi 2024 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Is-Gaderiydd yn cadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd), Gerwyn Owen, Johnny Davies, Alan Henson, Daniel Evans, Lynford Thomas,

1. **YMDDIHEURIADAU** Cyng. Lyn Williams, Glyn Davies, Harry Williams, Melinda Williams. Y Cyng. Ceris Jones, Cynghorydd Sir

2. **PERSONOL**
   Estynwyd cydymdeimlad i'r Cyng. Alan Henson a gollodd ei dad, sef Raymond Henson ganol mis Gorffennaf.
   Llongyfarchwyd y Cyng. Gerwyn Owen ar dderbyn anrhydedd gan Ffederasiwn Tir Glas yn ddiweddar - Cefnogaeth a Chyfraniad Eithriadol.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL** - Dim i'w datgelu

4. **CADARNHAU COFNODION 09/07/024**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng Alan Henson.ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas a'u derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

   **10.i Camera Cyflymder.** Derbyniwyd galwad ffôn wrth David Joseph o Heddlu Dyfed Powys yn gweud eu bod yn aros i ganlyniadau'r adolygiad 20mya cyn ail ddechrau'r faniau cyflymder.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.**

   Derbyniwyd neges yn absenoldeb y Cyng. Ceris Jones i ddweud nad yw wedi cael ymateb gan Clic i'r ymholiadau blaenorol.

7. **CYLLID**

   a. Tal y Clerc mis Gorffennaf ac Awst **£**217.84
   b. Hysbysfwrdd Dihewyd. Cafwyd pris o £150 gan Alan Edwards. Cytunwyd yn unfrydol i gario mlân â'r gwaith.
   c. Praesept 2 (Gorffennaf 31) wedi ei dderbyn £3316.67
   d. Dosbarthwyd taflen Diweddariad Cyllid 2024-25 yn dangos gwariant hyd at Medi 2024.

8. **CYFARFOD RHANBARTH UN LLAIS CYMRU 27/6/2024** Trafodywd y cwestiynau i anfon ymlaen i syw'r Prif Weithredwr. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gofyn cwestiwn ynglŷn â diffygion Clic a'r diffyg cyfathrebu uniongyrchol â Swyddogion y Sir.

## 9. CYNLLUNIO

**Apêl Penparc, Dihewyd A230815**. Yn dilyn trafodaeth am y rhesymau a nodwyd dros wrthod y cais **penderfynwyd** yn unfrydol nad oedd gan y Cyngor yr arbenigedd i herio penderfyniad yr Adran Gynllunio ond nodwyd unwaith eto ei benderfyniad i gefnogi'r cais gwreiddiol.

## 10. BLODAU

Nodwyd nad yw Stuart Akkermans yn bwriadu codi'n llawn am y gwaith 'leni dim ond am ei gostau gan ei fod wedi cael siom nad yw'r blodau a blannwyd wedi blodeuo yn ôl y disgwyl. Wrth ymddiheuro, cynigiodd ei fod yn gofyn i Robert's Garden Centre i dyfu'r blodau y flwyddyn nesaf – fel mae e'n 'neud gyda blode Llanbed - ac yna bydd Stuart yn 'neud y gwaith o'i plannu. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** derbyn y cynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## 11. GOHEBIAETH

a. Llythyr o ddiolch gan yr **Ambiwlans Awyr** am y rhodd o £100.00
b. Llythyr wrth Ben Lake yn dilyn ei ail-ethol yn diolch am y gefnogaeth ac yn awyddus i sicrhau ei fod ar gael i bawb sydd angen cymorth.
c. Arolwg Trafnidiaeth Gyhoeddus Elin Jones. Rhannwyd ffurflenni.
d. Dyddiad cynhadledd Un Llais Cymru16/10/24
e. Llythyr oddi wrth Ysgol **Felinfach yn gofyn am nawdd** i greu llyfr atgofion. Gan fod angen ymateb erbyn y 6ed o Fedi, **penderfynwyd trafod** y cais yn y cyfarfod hwn. Yn dilyn trafodaeth cynigwyd £100 gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson**. Cytunwyd yn unfrydol**.
**f.** Llythyr oddi wrth Ysgol Uwchradd Aberaeron **yn gofyn am nawdd o £250.00** tuag at gostau sioe gerdd 'High School Musical' i'w chynnal ym mis Tachwedd. **Penderfynwyd** trafod y mater yn y cyfarfod hwn. Yn dilyn trafodaeth cynigiwyd y swm o £250 gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson a chytunwyd yn unfrydol. **Nodwyd trwy roi cyfanswm o £350 i'r achosion uchod bod £500 yn weddill yn y gyllideb Rhoddion ar gyfer 2024/25.**
g. Digwyddiadau Dysgu Bro Ceredigion 10fed Medi yn Theatr Felinfach.
h. Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth derbyniwyd llythyr gan y **Swyddfa Bost** yn nodi bod y gwasanaeth symudol yng Nghribyn yn dod i ben ar Fedi'r 19th a hynny am fod "cyn lleied o bobl yn ei ddefnyddio".
i. Llythyr gan **Gymdeithas Clotas** yn gofyn am gefnogaeth drwy lythyr am Ŵyl newydd i gofio a gwerthfawrogi gwaith Ffos Davies**.** Paratowyd llythyr gan y Clerc ac arwyddwyd gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.
j. Llythyr gan Un Llais Cymr yn nodi gofyniad statudol aelodau o ran nifer y cyfarfodydd mae'n rhaid iddynt fynychu yn ystod blwyddyn.

## 12. UNRHYW FATER ARALL

a. **Ysgol Dyffryn Aeron.** Darllenwyd llythyr oddi wrth Mrs. Margaret Evans yn tynnu sylw at ran o'r pafin sydd heb gael tarmac ac yn gofyn i'r Cyngor ail-ystyried y penderfyniad hwn am resymau hygyrchedd. **Penderfynwyd** yn unfrydol cysylltu â'r Sir i ategu'r llythyr ac i dderbyn sicrhad bod y pafin fel ag y mae yn unol â gofynion y Ddeddf Anabledd 2010 o ran dyluniad a chynnal a chadw a hynny er gwasanaethu defnyddwyr yr ysgol yn ogystal â'r fusnes newydd 'Cattle Strength' a fydd yn hybu iechyd a lles yn yr ardal yn ogystal â'r economi leol.

b. **Cyflymder Traffig Ysgol Dyffryn Aeron**. Ar gais y Cyng. Glyn Davies trwy lythyr, gofynwyd pe bai modd i'r Cyngor Sir ystyried gweithredu system cyflymder traffig fel sydd ym Mhenparc a Llanfaran a newid o'r 20mya ar ddiwedd diwrnod ysgol ac yn ystod y gwyliau**.** **Penderfynwyd** rhoi'r cais gerbron y Cyngor Sir.

c. **Bont Glanafon, Cribyn.** Ar gais y Cyng. Alan Henson ac yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd c**ysylltu â'r Cyngor Sir i wneud arolygiad o ddiogelwch o'r bont yn sgil y defnydd cynyddol o beiriannau trwm sydd yn teithio arni. Mae pryder am ei chyflwr i'r rhai hynny sy'n ei defnyddio'n gyson.

d. **Ar gais y Cyng.** Lynford Thomas cysylltwyd unwaith eto a'r Cyngor Sir ar 21ain Awst ynglŷn â'r 'storm drain' ym Mro Henllys – cyfeirnod 661633. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb,

## 13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

**Hydref 8fed yn Neuadd Dihewyd**